

# Cynllun Gwasanaeth Blynyddol Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol 2017-22



Rhifyn 2021/22

# Cynnwys

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen 1</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>Tudalen 2</b>
<b>Cyllid</b>	<b>Tudalen 4</b>
<b>Cynllunio'r Gweithlu</b>	<b>Tudalen 5</b>
<b>Rhaglenni a Phrosiectau Newid Mawr 2020/21</b>	<b>Tudalen 6</b>
<b>Amcanion/Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth 2020/21</b>	<b>Tudalen 8</b>
<b>Mesurau Perfformiad</b>	<b>Tudalen 15</b>
<b>Rheoli Risg</b>	<b>Tudalen 16</b>

## Aelod(au) Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaeth



**Y Cyngorydd Paul Cockeram**  
Yr Aelod Cabinet dros  
Wasanaethau  
Cymdeithasol



**Chris Humphrey**  
Pennaeth y  
Gwasanaethau Oedolion  
a Chymunedol

# Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sector cyhoeddus bennu amcanion Llesiant yn eu Cynlluniau Corfforaethol. Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 wedi pennu pedwar Amcan Lles sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cynllun Lles' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un a hefyd Nodau Lles Cymru:






**Amcan Lles 1** – Gwella sgiliau, addysg a chyfleoedd cyflogaeth.

**Amcan Lles 2** – Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd

**Amcan Lles 3** – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn

**Amcan Lles 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Lles, mae gwasanaethau'r Cyngor wedi gosod cynllun gwasanaeth pum mlynedd sy'n amlinellu eu hamcanion, eu camau gweithredu, eu mesurau perfformiad a'r risgiau o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae pob un o'r amcanion a'r camau gweithredu hyn hefyd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy a phum egwyddor y Ddeddf Llesiant:

Yn yr Hirdymor		Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.
Atal		Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion.
Integreiddio		Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Cydweithio		Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.
Cynnwys Pobl		Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

## Dyletswyddau Statudol Cyngor Dinas Casnewydd

Wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ceir gwahanol ofynion deddfwriaethol a statudol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. Mae'r meysydd dyletswyddau statudol allweddol yn cynnwys (ymhlith eraill):

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Cydraddoldeb gan gynnwys Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol

Deddf yr Iaith Gymraeg

Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2001.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Deddf Galluedd Meddyliol 2019

Deddf Iechyd Meddwl 2017

### **Trosolwg o'r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol**

Mae dinasyddion Casnewydd yn cynrychioli grŵp amrywiol o bobl, a phennir eu hanghenion gofal cymdeithasol gan ystod eang o ffactorau gan gynnwys oedran, iechyd corfforol a meddyliol ac amgylchiadau economaidd.

Yr heriau i wasanaethau oedolion a chymunedol yw bod y boblogaeth yn tyfu a bod pobl yn byw'n hwy. Felly, mae'n rhaid inni ddod o hyd i atebion cynaliadwy a fydd yn ateb galwadau newydd mewn hinsawdd o leihau cyllidebau.

Mae hyn yn gofyn am atebion newydd sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan weithio mewn partneriaeth gydag iechyd i hybu annibyniaeth ac annog llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Mae darparwyr y trydydd sector ac annibynnol yn darparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod Lleol ac mae angen i ni sicrhau bod pob partner yn darparu gofal a chymorth yn unol â'n gofynion strategol.

Mae poblogaeth y Ddinas wedi'i dosbarthu'n anghyfartal gyda'r ardaloedd ar yr ymylon dwyreiniol a gorllewinol, Maerun, Cas-bach, Pen-hw, a Llandevaud, ag adrannau etholiadol mawr yn ddaearyddol ond â llai o bobl yn byw ynddynt. Mae gogledd a dwyrain y Ddinas yn fwy poblog gyda chyfran uchaf cyfanswm poblogaeth y ddinas yn wardiau'r Betws, Y Malpas, Ringland ac Alway .

Yn gyffredinol, mae tueddiadau demograffig yn rhagweld niferoedd cynyddol o bobl hŷn a gostyngiad yn nifer yr oedolion iau. Mae hon yn duedd Genedlaethol ac mae iddo ganlyniadau sylweddol o safbwynt y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae Unigedd Cymdeithasol ac unigrwydd yn aml yn cael eu hachosi gan golli teulu, ffrindiau, symudedd neu incwm, y mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed iddo. Gall hyn effeithio'n niweidiol ar iechyd corfforol a lles meddyliol. Amcangyfrifwyd bod 11,677 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain yng Nghasnewydd yn 2010, a rhagamcennir y bydd hyn yn codi i 13,160 yn 2025.

Er mwyn rheoli'r galw cynyddol yn y dyfodol yn effeithiol bydd angen i Gyngor Dinas Casnewydd gynnig gwasanaethau ataliol sy'n hybu annibyniaeth a hunanddibyniaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag iechyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddinasyddion gael gafael ar gymorth a fydd yn gwella ac yn cynnal iechyd a llesiant. Bydd y newid hwn yn galluogi dinasyddion i gynnal eu hannibyniaeth am fwy o amser a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Ar hyn o bryd mae gennym tua 1800 o bobl yn derbyn cynllun gofal a chymorth ac yn cael gofal a chymorth ar draws ystod o wasanaethau. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod y rhai sydd yn ein gofal yn cael eu diogelu. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae ein mesurau Diogelu yn y Cyngor yn gosod dyletswydd ar bob swyddog a gwasanaethau cefnogi i roi gwybod am ddiwyddiadau lle credant fod unigolyn neu grŵp mewn perygl.

Mae'r pwysau a wynebir gan y gwasanaeth yn cynnwys:

- Cyllidebau'n lleihau
- Cynnydd yn y boblogaeth
- Niferoedd cynyddol o bobl dros 65 oed ac yn byw ar eu pen eu hunain
- Cynnydd yn nifer y bobl sydd â diagnosis o ddementia
- Diffyg cyflenwad gwasanaethau dementia arbenigol
- Niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl sy'n byw mewn amgylchiadau a ddiffinnir fel rhai difreintiedig
- Niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl yn dioddef iechyd gwael
- Materion recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol

## Cyllid

Er gwaethaf yr uchod, nid yw effaith y Pandemig wedi'i gwireddu'n llawn eto.

- Bydd angen i'r farchnad ofal addasu i ffyrdd newydd o weithio a gallai hynny effeithio ar gapasiti gwasanaethau a chynaliadwyedd ariannol.
- Nid yw'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol hirdymor yn hysbys eto

Cytunwyd ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod y [Cyngor](#) ar 3 Mawrth 2021. Yn 2021/22 mae cyllideb referniw sylfaenol y Gwasanaethau i Oedolion wedi'i osod ar £51,495,000. Fel rhan o Gynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, mae Gwasanaethau Oedolion wedi nodi arbedion i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r arbedion canlynol wedi'u nodi yn y tabl isod a gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](#).

Maes arbedion a nodwyd	Arbedion (£) 2021/22	Arbedion (£) 2022/23	Arbedion (£) 2023/24	Arbedion (£) 2024/25
Trawsnewid gwasanaethau dydd i Oedolion	£437,000	£145,000	£0	£0
Gostyngiadau arfaethedig mewn cyllidebau nad ydynt yn rhai staffio	£284,000	£0	£0	£0
Cyfleoedd cymunedol i oedolion sydd ag anableddau dysgu ac oedolion sydd ag anableddau corfforol	£150,000	£0	£0	£0

Nodir buddsoddiadau cyllidebol ar gyfer Gwasanaethau Busnes dros y pedair blynedd nesaf isod a gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](#).

Meysydd Buddsoddi Cyllidebol	Buddsoddiadau (£) 2021/22	Buddsoddiadau (£) 2022/23	Buddsoddiadau (£) 2023/24	Buddsoddiadau (£) 2024/25
Posibilrwydd o gollu cyllid y Gronfa Gofal Integredig (CGI) o fis Mawrth 2022 ar gyfer gwasanaethau statudol	£0	I'w gadarnhau	£0	£0
Y galw ar gyllidebau Gofal Oedolion yn y Gymuned drwy blant anabledd dysgu newydd sy'n troi'n 18 oed, ail-broffilio arbedion 2020/21 (£250k) a gostyngiad o £96k yn y pwysau	£976,000	£-63,000	£0	£0

## Y Rhaglen Gyfalaf

Mae Cyngor Casnewydd yn gosod rhaglen gyfalaf helaeth i gyflawni prosiectau/cynlluniau seilwaith allweddol. Mae'r rhestr o gynlluniau a phrosiectau Cyfalaf ar gyfer 2020/21 i'w gweld [yma](#).

## Cynllunio'r Gweithlu

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwasanaeth, mae'n bwysig llunio cynllun gweithlu sy'n canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu staff ac i wella gwydnwch timau i sicrhau newid. Trwy gydweithio â Thîm Adnoddau Dynol y Cyngor, mae'r gwasanaeth wedi nodi'r camau canlynol i'w cyflawni yn 2021/22.

Cyf.	Cam Gweithredu	Rheswm (Rhesymau)	Amcan(ion)	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu	Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig
1	Creu gweithgor i adolygu Disgrifiadau Swydd allweddol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol.	Mae angen diweddarau'r disgrifiadau swydd presennol er mwyn adlewyrchu'r rolau a'r cyfrifoldebau presennol?	Sicrhau cysondeb ar draws rolau a chyfrifoldebau allweddol yn y Gwasanaethau i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol / Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
2	Nodi partneriaid a darparu hyfforddiant i aelodau staff allweddol a gwasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol ar ddeddfwriaeth newydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol.	Mae Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn cyflwyno pwerau a dyletswyddau newydd ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	Gwella'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd.	Pennaeth Gwasanaeth Oedolion a Chymunedol / Rheolwr Gwasanaeth (HL)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
3	Archwilio llwybrau a strwythurau gyrfu ledled y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gymuned.	Cynyddu hyblygrwydd ar draws y gweithlu a chefnogi dilyniant gyrfu.	Gwella gwytnwch a darparu llwybrau gyrfu ar draws y Gwasanaethau i Oedolion.	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol / Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

## Rhaglenni a Phrosiectau

Er mwyn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol a/neu gyflawni'r dyletswyddau statudol/newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol, mae meysydd gwasanaeth yn ymgymryd â rhaglenni a phrosiectau. Isod ceir rhestr o raglenni a phrosiectau newid mawr parhaus sy'n cael eu harwain ar hyn o bryd gan Wasanaethau Oedolion a Chymunedol.

Enw'r Rhaglen/ Prosiect	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen/ Prosiect a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Lles a gefnogir	Thema/Themâu Corfforaethol	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Prosiect
<b>Cartref yn Gyntaf</b>	<p>Amcan y prosiect hwn yw cysoni ymhellach brosesau llif cleifion wrth eu rhyddhau o'r ysbyty. Drwy gydweithio â'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, y canlyniadau fydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atal derbyniadau i'r ysbyty yn y dyfodol drwy sicrhau bod pecynnau gofal wedi'u teilwra ar waith.</li> <li>• Gweithredu cynllunio cynnar ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn atal oedi y gellid ei osgoi ar gyfer cleifion sy'n dychwelyd adref neu i lety priodol.</li> <li>• Yn ystod argyfwng COVID 19, mae Cartref yn Gyntaf wedi parhau i ddarparu gwasanaeth rheng flaen hanfodol yn unol â threfniadau rhanbarthol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty.</li> <li>• Mae Cartref yn Gyntaf wedi ymestyn y gwaith i gynnwys Ysbyty Athrofaol y Grange a agorwyd ym mis Tachwedd 2020</li> </ul>	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Integreiddio'r tîm Eiddilwch i'r tîm Cyswllt Cyntaf</b>	<p>Amcan y prosiect hwn yw integreiddio'r tîm Eiddilwch i'r tîm Cyswllt Cyntaf. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau nifer y pwyntiau mynediad i ddinasyddion Casnewydd orfod cysylltu ac ymgysylltu â'r Cyngor.</li> <li>• Gwella effeithlonrwydd a chysondeb y gwasanaeth Cyswllt Cyntaf i gyfeirio dinasyddion Casnewydd at y tîm(au) cywir a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer eu hanghenion.</li> </ul>	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Gwasanaeth Rhanbarthol Taliadau Uniongyrchol</b>	<p>Datblygu dull rhanbarthol i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gafael ar a defnyddio'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol a fydd yn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth;</li> <li>• Gwella gwydnwch y model gwasanaeth ar gyfer dinasyddion Casnewydd yn y dyfodol</li> <li>• Sicrhau bod unigolion yn gallu cael mwy o annibyniaeth a chymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion.</li> </ul>	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22



Enw'r Rhaglen/ Prosiect	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen/ Prosiect a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Lles a gefnogir	Thema/Themâu Corfforaethol	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Prosiect
<b>Gwasanaeth Penodeiaeth Rhanbarthol</b>	Datblygu dull rhanbarthol i ddinasyddion Casnewydd gael mynediad i'r gwasanaeth Penodeiaeth. Bydd canlyniad(au) y prosiect hwn yn sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth ar gyfer pob dinesydd.</li> <li>• Gwella mynediad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Penodeiaeth i ddinasyddion Casnewydd.</li> </ul>	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Datblygu Cyfleoedd Dydd y gwasanaeth Allgymorth</b>	Datblygir model cymorth allgymorth yn y gymuned fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu ac ehangu'r gwasanaeth blaenorol yn yr adeiladau	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Datblygu Ailalluogi – Gwasanaeth Dementia</b>	Datblygu gwasanaeth ail-alluogi arbenigol newydd i'r rhai sy'n dioddef o ddementia	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Diogelu Rhyddid</b>	Paratoi ar gyfer gweithredu deddfwriaeth newydd	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Gweithredu fframwaith perfformiad newydd Llywodraeth Cymru</b>	Gweithredu'r gweithdrefnau a'r protocolau yn llawn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru sy'n ofyniad adrodd statudol	<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22



# Amcanion a Chamau

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, mae Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol wedi pennu 5 Amcan i'w cyflawni yn 2021/22:

**Amcan 1** - Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

**Amcan 2** - Gweithio'n integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

**Amcan 3** - Comisiynu

**Amcan 4** - Gofalwyr

**Amcan 5** - Diogelu

<b>Amcan 1</b>		<b>Atal ac Ymyrryd yn Gynnar</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Byddwn yn cyfarwyddo ac yn cyfeirio'n effeithiol a phan fydd angen cymorth byddwn yn ymyrryd yn gynnar i atal dwysáu a dibyniaeth.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Datblygu Cyswllt Cyntaf fel tîm amlddisgyblaethol, amlasiantaethol sy'n rheoli'r galw yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys integreiddio'r gwasanaeth Eiddilwch i'r Tîm Cyswllt Cyntaf.	Bydd integreiddio'r gwasanaeth Eiddilwch i'r Tîm Cyswllt Cyntaf yn gwella'r cyfeirio a'r modd y mae dinasyddion Casnewydd yn cyrchu gwasanaethau. Bydd hyn hefyd yn lleihau nifer y pwyntiau mynediad unigol ac yn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth.  Bydd y gwasanaeth hefyd yn gwella ei allu i wrthsefyll pwysau'r galw am wasanaethau ac yn sicrhau bod dull integredig yn cael ei ddarparu i ddinasyddion.	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Datblygu ymagwedd ranbarthol i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gafael ar a defnyddio'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol.	Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect Taliadau Uniongyrchol a bydd yn cynnig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth;</li> <li>• Gwella gwydnwch y model gwasanaeth ar gyfer dinasyddion Casnewydd yn y dyfodol; a</li> <li>• Sicrhau bod unigolion yn gallu cael mwy o annibyniaeth a chymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 2</b>		<b>Gweithio'n integredig ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Datblygu dull integredig o ddarparu gofal a chymorth i bobl yng Nghasnewydd drwy sefydlu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Datblygu ac integreiddio'r fenter Cartref yn Gyntaf Ranbarthol yn effeithiol i lwybr ysbytai a chysoni ymhellach brosesau llif cleifion wrth eu rhyddhau o'r ysbyty.	Drwy gydweithio â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid byddwn yn gallu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atal derbyniadau</li> <li>• Adeiladu ymhellach ar gynllunio cynnar ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn atal oedi y gellir ei osgoi</li> <li>• Rheoli cleifion drwy'r llwybrau yn fwy effeithiol</li> <li>• Mae agor Ysbyty Athrofaol y Grange newydd wedi effeithio ar brosesau presennol ac mae angen adolygu a datblygu parhaus er mwyn sicrhau integreiddio llawn</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth (JA)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu i bontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael cymorth wedi'i deilwra a fydd yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd er mwyn sicrhau eu bod yn oedolion annibynnol.</li> <li>• Galluogi integreiddio gwasanaethau allweddol y Cyngor, iechyd a phartneriaid i gefnogi pobl ifanc drwy'r broses bontio.</li> <li>• Galluogi cynllunio ac ymwneud cynnar â phobl ifanc, eu teuluoedd a/neu ofalwyr i'w cefnogi drwy gydol y broses bontio.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth (HL)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 3</b>		<b>Comisiynu</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Caffael a rheoli contractau gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth o angen cymunedol a gwybodaeth am y farchnad.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Datblygu gwasanaeth Penodeiaeth ranbarthol drwy gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.	Bydd canlyniad(au) y cam gweithredu hwn yn sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth ar gyfer pob dinesydd.</li> <li>• Gwella mynediad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Penodeiaeth i ddinasyddion Casnewydd.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022
2	Gweithredu'r Strategaeth Byw'n Annibynnol ar gyfer pob oedolyn a gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu i drosglwyddo i Wasanaethau Oedolion.	Bydd y cam gweithredu hwn yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth ag anableddau dysgu i fyw bywydau iach ac annibynnol yn y gymuned a sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael cymorth wedi'i deilwra a fydd yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i sicrhau annibyniaeth wrth droi'n oedolion.  Galluogi cynllunio ac ymwneud cynnar â'r Cyngor, y gwasanaeth iechyd a phobl ifanc, eu teuluoedd a/neu ofalwyr i'w cefnogi drwy gydol y broses bontio.  Sicrhau bod systemau/prosesau amlddisgyblaethol ar waith i gefnogi'r broses bontio. Gwybodaeth gan y Gwasanaethau Plant i ragweld y galw yn y dyfodol	Rheolwr Gwasanaeth (HL)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
3	Cyfleoedd Dydd – Datblygu gwasanaeth allgymorth	Sicrhau hyblygrwydd yn y cynnig o gymorth yn y gymuned ar draws grwpiau cleientiaid	Rheolwr Gwasanaeth (GC)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 3</b>		<b>Comisiynu</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Caffael a rheoli contractau gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth o angen cymunedol a gwybodaeth am y farchnad.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
4	Datblygu Gwasanaeth Ailalluogi Dementia	Sicrhau bod gan bobl sydd â Dementia fynediad at wasanaeth arbenigol i gynnal a gwella annibyniaeth ar ôl gadael yr ysbyty	Rheolwr Gwasanaeth (GC)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
5	Gweithredu Fframwaith perfformiad newydd Llywodraeth Cymru	Sicrhau y gall CDC gyflawni ei ofyniad statudol i adrodd i Lywodraeth Cymru ar weithgarwch ar draws gwasanaethau oedolion a phlant	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
6	Asesu effaith Covid 19 ar gynaliadwyedd hirdymor darparwyr gwasanaethau yn y dyfodol gan sicrhau bod y farchnad yn gallu cynnig digon o gapasiti ac amrywiaeth yn y farchnad.	Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r effaith y mae Covid 19 wedi'i chael ar y sector gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghasnewydd.  Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn pennu cynnig y farchnad yn y dyfodol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn pecynnau gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n galluogi byw'n iach ac yn annibynnol.	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 4</b>		<b>Gofalwyr</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Cyflawni cyfrifoldeb CDC i ofalwyr fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan gynnig cymorth a lleihau nifer y gofalwyr sy'n methu.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wyd'n			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Parhau i ddatblygu Rhwydwaith Gofalwyr Casnewydd i hwyluso ymgysylltu a chyfleoedd i ddarparu gwybodaeth arbenigol	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn galluogi'r Gwasanaethau i Oedolion gefnogi gofalwyr a darparu cymorth integredig a fydd yn atal gofalwyr rhag methu.	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Datblygu cynnig gwasanaeth diwygiedig i ofalwyr ifanc mewn partneriaeth â Barnardo's	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael eu cyfeirio a chael gafael ar y gwasanaeth(au) sydd eu hangen arnynt.</li> <li>Cynnwys gofalwyr i sicrhau bod eu lles ariannol, corfforol ac emosiynol yn cael ei gefnogi drwyddi draw, galluogi cymorth integredig gan y Cyngor, iechyd, y trydydd sector ac elusennau i bob gofalwr.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 5</b>		<b>Diogelu</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Gwella trefniadau diogelu sy'n amddiffyn plant ac oedolion ym mhob agwedd ar swyddogaethau a dyletswyddau gwasanaethau'r Cyngor.			
<b>Pa Amcan(ion) Lles y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Gweithredu'r newid mewn Deddfwriaeth Galluedd Meddyliol yn benodol mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) i ddeddfwriaeth newydd Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) Aildrefnwyd y gweithredu o fis Hydref 2020, hyd at fis Ebrill 2022 oherwydd pwysau'r pandemig.	Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ar gyfer dinasyddion Casnewydd. Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod prosesau'r Cyngor yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol newydd hyn.	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022
2	Parhau i gefnogi a grymuso dinasyddion drwy'r broses diogelu oedolion.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod holl Ddinasyddion, Partneriaid, Aelodau'r Cyngor a Swyddogion Casnewydd yn gallu codi pryderon a materion diogelu a bod yn hyderus yr ymchwilir i'r rhain yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant,	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021
2.1	Darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ar gyfer pob ymarferydd a swyddog.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod ymarferwyr a swyddogion yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau o dan y deddfwriaeth TDRh newydd. Bydd hyn hefyd yn atal diffyg cydymffurfio â'r deddfwriaeth newydd.	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2020	30 Medi 2021
3	Paratoi ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ym mis Ebrill 2022.	Sicrhau bod Gwasanaethau Oedolion, CDC a phartneriaid yn barod i weithredu'r deddfwriaeth newydd o fis Ebrill 2022.	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022



# Mesurau Perfformiad

Mesur Perfformiad (Gwybodaeth Reoli Genedlaethol / Leol)	Perfformiad Gwirioneddol 2020/21	Perfformiad Gwirioneddol 2019/20	Perfformiad Gwirioneddol 2018/19
<b>Cenedlaethol (AD/002)</b> – Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion lle darparwyd cyngor a chymorth yn ystod y flwyddyn	1,718	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/004)</b> – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn	1,538	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/006b)</b> – Derbyniwyd cynnig gweithredol Cymraeg	0	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/010)</b> - Cyfanswm nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn	584	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/011a)</b> - Nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn lleihau'r angen am gymorth	43	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/011b)</b> - Nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnal yr angen ar gyfer yr un lefel o gymorth.	95	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/011c)</b> – Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn lliniaru'r angen am gymorth.	409	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/012)</b> – Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	1,861	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/013)</b> – Cyfanswm nifer yr oedolion ag anghenion cymwys am ofal a chymorth a gynhelir gan Daliadau Uniongyrchol ar 31 Mawrth	93	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/022)</b> – Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl lle mae angen gwneud ymholiadau.	648	Dim data	Dim data
<b>Cenedlaethol (AD/023)</b> - Nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod ar ôl dioddef y cam-drin honedig a gofnodwyd.	636	Dim data	Dim data

## Geirfa

Cenedlaethol – Casglwyd ac adroddwyd i sefydliad allanol fel Llywodraeth Cymru / Estyn / CLILC ac ati i feincnodi / cymharu

Lleol – wedi'i gasglu a'i adrodd yn benodol gan CDC / Gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcan.

Gwybodaeth Reoli – Casglwyd ac adroddwyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgaredd a/neu wasanaeth penodol.

# Rheoli Risg

Enw'r Risg	Perchennog y Risg (Teitl y Swydd)	Risg Gorfforaethol neu Risg Gwasanaeth
<p><b>Deddfwriaeth Trefniadau Diogelu Rhyddid</b> Yn 2020 bydd deddfwriaeth newydd y Trefniadau Diogelu Rhyddid (TDRh) yn cael ei phasio yn lle'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (TDRhCRh) presennol.</p>	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	Risg i Wasanaeth
<p><b>Pwysau ar y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol</b> Mae mwy o bwysau ar y Gwasanaethau i Oedolion i ddarparu gwasanaethau i oedolion sydd ag anghenion cymhleth a pharhaol.</p> <p>Gyda chynnydd yn y galw / nifer yr atgyfeiriadau a phecynnau gofal, mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn costau a hynny yng nghyd-destun cyllidebau sy'n tynhau.</p> <p>Mae gofynion statudol ychwanegol hefyd i ddiogelu oedolion yn ein gofal ac atal perygl o niwed, anaf neu golli bywyd.</p>	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	Risg Gorfforaethol
<p><b>Risg Diogelu</b> Sicrhau bod y Cyngor yn diogelu oedolion, plant a gofalmwyr fel rhan o'i ddyletswydd statudol.</p>	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	Risg Gorfforaethol
<p><b>Sefydlogrwydd Darparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol</b> Mae'r Cyngor ag angen cymorth gan ddarparwyr allanol i ddarparu pecynnau gofal i oedolion (preswyl / amhreswyl). Mae'r farchnad bresennol ar gyfer darparwyr allanol yn gyfnewidiol oherwydd y costau cynyddol i ddarparu gofal, cynnal cartrefi a staffio sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.</p>	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	Risg Gorfforaethol